



INESYDD

GORFFENNAF-AWST

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

1985

RHIF 117

BUDDUGOLIAETH AR Y GORWEL

MAE CYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG ar drothwy buddugoliaeth hanesyddol arall - y tro hwn ym myd addysg. Dyna o leiaf yw'r hyn a ragwelir yn sgil cyfarfod a gynhaliwyd rhwng cynrychiolwyr pump o fudiadau Cymraeg a John Stradling Thomas A.S., yr Is-weinidog yn y Swyddfa Gymreig â chanddo gyfrifoldeb am addysg.

Bu'r Gymdeithas yn pwysu am gyfarfod â'r Swyddfa Gymreig ers blwyddyn a rhagor i drafod sefydlu Corff Datblygu Addysg Gymraeg, ond gwrthodwyd pob cais. Serch hynny, pan wnaed cais arall, y tro hwn ynghyd â phum mudiad arall - U.C.A.C., yr Urdd, Rhieni Dros Addysg Gymraeg, Mudiad Ysgolion Meithrin a Merched y Wawr - fe'i derbyniwyd.

Yn groes i'r disgwyl, cafwyd ymateb cadarnahol gan John Stradling Thomas. Yn naturiol ddigon, ni wnaeth gyhoeddiad ffurfiol, ond pan ddaethant allan o'r cyfarfod roedd cynrychiolwyr y mudiadau yn weddol ffyddiog eu bod ar drothwy buddugoliaeth.

Os gwiredir eu gobeithion a sefydlir Corff Datblygu Addysg Gymraeg bydd y mudiadau, a'r Gymdeithas yn neilltuo, wedi ennill buddugoliaeth rhyfeddol, yn enwedig felly o gofio mai dim ond ar ôl buddugoliaeth y sianel y cychwynodd y sôn am Gorff Datblygu, a hynny heb y cefndir o gefnogaeth a gafwyd i'r ymgyrch ddarlledu.

Yn mis Hydref 1982 cyflwynwyd cynnig manwl gerbron Cyfarfod Cyffredinol y Gymdeithas yn galw "am sefydlu Corff Datblygu Addysg Gymraeg gyda statws a grym gwirioneddol". Dilynwyd y cynnig gan gyfnod o weithgarwch cyfansoddiadol pryd y lluniwyd polisi mwy manwl. Yna aethpwyd ati i sicrhau cefnogaeth gan unigolion a chyrrff perthnasol. Fel yn y gorffennol, llwyddodd y Gymdeithas i greu consensws eang o gefnogaeth.

Pan gyflwynwyd yr awgrym i'r awdurdodau roedd hanes i ail-adrodd ei hun. Gwnaed arolwg

cenedlaethol - a hynny am y tro cyntaf erioed - gan is-bwyllgor Iaith a Diwylliant Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru, o anghenion addysg Gymraeg. Ym mis Mai 1984 adroddodd y gweithgor fod angen corff cenedlaethol i ddatblygu addysg Gymraeg a chytunodd hefyd ag amcangyfrif y Gymdeithas y byddai angen cyllideb o £20 miliwn y flwyddyn i gyflawni'r gwaith. Ond pan drafodwyd yr adroddiad gan y Cyd-Bwyllgor llawn ym mis Gorffennaf 1984 datganodd y gallai gyflawni'r gwaith ei hunan. Ymateb cyntaf y Swyddfa Gymreig hefyd oedd i wrthod yr awgrym, a gwrthodwyd ceisiadau lu gan y Gymdeithas i drafod y mater ymhellach.

Yna cafwyd cyfnod o weithredu tor-cyfraith a oedd ar adegau yn cynnwys difrod sylweddol i swyddfeydd aelodau seneddol Ceidwadol a'r Blaid Geidwadol. Roedd swyddfa John Stradling Thomas ym Mrynbuga, yn un o'r rhai a ddifrodwyd.

Ar Chwefror 12, yn Llys y Goron, Caerdydd, dedfrydwyd Meinir Ffransis a Dafydd Lewis, i garchar am flwyddyn (naw mis ohono'n garchar gohiriedig), a gorchmynwyd Lleucu Morgan i ymgymryd â chan awr o wasanaeth cymunedol. Roedd y tri wedi'u cael yn euog o dorri mewn i swyddfa Gymreig y Blaid Geidwadol yng Nghaerdydd a pheri difrod troseddol gwerth £5,000.

Ers rhai misoedd bellach gohiriwyd gweithredu difrifol o'r fath a chanolbwyntiwyd ar ymgyrchu cyfansoddiadol. Ymddengys yn awr bod tair blynedd o ymgyrchu unplyg yn mynd i dalu ffordd.

Ffarwel BYRTI!

I'R SAWL OHONOC a gafodd lond bol ar Byrti Bws gallwn eich sicrhau - wel bron a bod - mai dyma'r llun olaf ohono a welir yn rhudalennau'r Dinesydd -am y tro beth bynnag.

Hoffai'r Dinesydd longyfarch a diolch i Byrti, a phawb arall a fu'n gylltiedig a threfniadau'r Eisteddfod, am eu llafur caled. Diolch o galon i chi gyd am wneud yr Wyl yn un mor lwyddiannus.

GWERTHIANT AR I FYNY!

Fel y sylwoch mae'n siwr, roedd y Dinesydd ar werth yn ystod yr Eisteddfod. Nid yn aml y cawn y cyfle i godi arian trwy werthu copiau a hoffwn ddiolch i bawb a'n cefnogodd trwy ei brynu.



TU MEWN:

Ffarwel Mered a Phyllis .. Tud.3
Y Dinesydd yn ennyn ymateb Tud.4
Owain Arfon yn Israel Tud.6
Bwydydd Barbyciw Tud.7
Enwau Elai gan Duncan Pugh Tud.9
Croesair y Dinesydd Tud.11

GAIR O'R POST

Berwyn
Ffordd Pentraeth
Porthaethwy
Ynys Môn.

Annwyl Dinesydd,

Rhaid anfon pwt o lythyr gyda'r croesair. Mwynheais ei ddatrys yn fawr. Rhaid dweud fy mod yn gwario llawer o amser gyda rhai Saesneg ond heb gael cymaint o flas ers tro byd ar groesair Cymraeg. Rhaid i mi eich llongyfarch yn fawr, ac mae pobl Caerdydd yn ffodus iawn fod ganddynt rhywbeth i roi eu dannedd ynddo bob mis.

Hefyd carwn ddiolch o galon i garedigion Caerdydd a'r cylch yn enwedig ardaloedd y Wenfo, Pendoylan a Llanbedr y Fro am y croeso gafodd plant a ieuencid Aelwyd Menai yn eu cartrefi dros yr Eisteddfod. Yr oedd popeth y tu hwnt i'r disgwyl a phawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr.

Rwy'n siwr eich bod yn hapus i chi gael Eisteddfod lwyddianus iawn.

Diolch yn fawr i chi gyd!
Yn gywir iawn
Dr Marian Thomas.

DIOLCH CADEIRYDD M.Y.M.

Hoffwn fynegi fy niolch mwyaf diffuant i'r llu o bobl a ymatebodd i'm apel am gefnogaeth i'm ymdrech i godi arian tuag at Fudiad Ysgolion Meithrin drwy fy noddi yn Ras Mini Marathon yr Urdd o gwmpas Llyn Tegid ar ddydd Sadwrn y 29 o Fehefin.

Mae'n dda gen i gyhoeddi fy mod wedi cyflawni'r gamp mewn awr a naw munud ar hugain! Trosglwyddir yr arian nawdd i'r Mudiad yn eu Cyfarfod Blynnyddol yn llwynypia yn y Rhondda ar ddydd Sadwrn 12 Hydref. Felly, mae cyfleu unrhywun a anghofiodd ymateb neu sydd eisiau cefnogi gwaith y mudiad yn gallou gwneud drwy anfon rhodd cyn y dyddiad hynny i Swyddfa M.Y.M. 10 Park Grove, Caerdydd CF1 3BN, ydy'r cyfeiriad.

Gwilym E. Roberts
Cadeirydd Cenedlaethol M.Y.M.
Caerdydd.

Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos,
62 Heol Monthermer,
Y Waun Ddyfal.
Ffôn: Caerdydd 43367



Cymdeithas y Cymod
14 Kenilworth House
Heol-Y-Porth
CF1 1DJ

Annwyl Gyfeillion

Nid peth dieithr i chwi ydyw derbyn llythyr oddi wrth eich arweinwyr enwadol, neu oddi wrth gymdeithasau sy'n apelio am arian.

Y mae derbyn llythyr am eich FFYDD ac am eich amgyffred o feddwl crist yn beth mwy dieithr.

Llythyr felly ydyw hwn - a daw atoch oddi wrth GYMDEITHAS Y CYMOD - cymdeithas o Gristnogion o wahanol enwadau ac o wahanol wledydd, a ffurfiwyd ar sail yr argyhoeddiad fod y Cymod yng Nghrist Iesu yn berthnasol i'n byd treisgar ni. Fe'n hargyhoeddwyd fod dilynwyd Crist yn cael eu galw i fyw'n gymodlawn ym mhob sefyllfa ac nad yw rhyfel yn eithriad i hyn. Yn wir, ymdeimlwn a chyfrifoldeb arbennig i dystio i ffordd cariad a cymod Crist wyneb yn wyneb a rhyfel a'i baratoadau yn eu holl ffurfiau.

Fe sylweddolwn nad yw pob Cristion wedi dod i'r amgyffred hwn o feddwl Crist. Mae'n bosibl bod rhai hefyd heb feddwl yn ddwfn am y mater, ac eraill wedi deall yr efengyl yn wahanol i ni.

Yn ostyngedig, fodd bynnag, fe garem eich gwahodd i ystyried yn weddigar, yng ngoleuni'r Gair, pa un yw efengyl Crist yn gofyn i ni ymrwngthod yn llwyr a phob trais a rhyfel.

Byddem yn ddiolchgar iawn petaech mor garedig a rhannu a ni - a hynny mewn llythyr - eich ymateb i'r un cwestiwn hwn, sydd yn ein barn ni, yn un canolog mewn oes mor dreisgar.

Yr eiddoch yng nghariad Crist, ar ran CYMDEITHAS Y CYMOD,

Y Parch. Islwyn Lake
Machynlleth

A ydych yn priodi eleni?
Ffotograffiaeth Creadigol gan

GWENAN
CAERDYDD 732233

Lluniau rhamantus sy'n creu
atgofion melys.

DYLID ANFON unrhyw gyfraniadau at rifyn Medi at: Shân Emlyn, 3 Llandernis Avenue, Cyncoed, Caerdydd, CF5 6JD erbyn Awst 22.

DIOLCH AM gymorth Cymdeithas Celfyddydau De Ddwyrain Cymru a'r Swyddfa Gymreig wrth baratoi'r Dinesydd.

CYLCHGRAWN NEWYDD I'R DYSGWYR

MAE CYNGOR Y DYSGWYR, y corff newydd a sefydlwyd yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanbed er mwyn cynorthwyo dysgwyr i ymdoddi i'r byd Cymraeg, yn mynd i gyhoeddi cylchgrawn newydd.

Bwriad y cylchgrawn, a ddosbarthir yn rhad ac am ddim i bob aelod o Gyngor y Dysgwyr, yw bod yn gyfrwng mynegiant i'r sawl sy'n dysgu Cymraeg. Bydd yn fodd i ddysgwyr rhannu profiadau a gloewi iaith yn ogystal ag yn ffynhonnell gwybodaeth am weithgareddau Cyngor y Dysgwyr a chyrslau Cymraeg ledled Cymru.

Bydd naws a hinsawdd y cylchgrawn yn adlewyrchu agwedd aeddfed oedolion sy'n dysgu Cymraeg, ac fe'i cyhoeddir yn uniaith Gymraeg, er y cynhwysir hysbysebion ar gyfer cyrsiau yn ddwyieithog.

Fe'i cynhyrchir pedair gwaith y flwyddyn gan ddechrau ym mis Medi, er bydd rhifyn prawf ar werth yn Eisteddfod Y Rhyl eleni. Cynhaliwyd cystadleuaeth i ddarganfod enw ar gyfer y cylchgrawn a gwobrwyir y cystadleydd buddugol ym Mhabell y Dysgwyr ar y maes.

Golygydd y cylchgrawn yw Win Harries, athrawes newydd ymddeol sy'n byw yma yng Nghaerdydd, a dyma oedd ganddi i'w ddweud am y fenter: "Cyffrous o beth yw dechrau pob menter ac edrychwn ymlaen yn fawr i gael cyfraniadau oddi wrth y Cymry Cymraeg yn ogystal â dysgwyr. Rhannu profiadau yw un o ddibenion y cylchgrawn a gall fod yn gyfrwng gwerthfawr i wrteithio'r meddwl ynglŷn â dysgu Cymraeg i oedolion trwy gyfnewid profiadau. Erbyn hyn y mae cronfa o brofaiad wedi cael ei chreu ym maes dysgu'r iaith fel ail-iaith: y mae'n bryd i ni fanteisio ar y sefyllfa er lles dyfodol i'r iaith ac i Gymru".

Mair Elvet Thomas yw'r is-olygydd, ac aelodau eraill y Bwrdd Golygyddol, a etholwyd am ddwy flynedd, yw Pat Binding (ysgrifenyddes), Julie Brice (dylunydd), Steffan Webb (ymgyngorydd proffesiynol), Elen Rhys (ymchwilydd), Carole George (cysylltwraig a'r cyhoedd). Os ydych am hysbysebu yn y cylchgrawn cysylltwch â Carole George ar 708934.

Os hoffech rhagor o fanylion neu os hoffech gyfrannu dyliid cysylltu â'r cyfeiriad canlynol: Canolfan Dysgu Cymraeg I Oedolion Prifysgol Cymru
22 Heol y Parc
Caerdydd CF1 3DQ
Ffôn: 390980

Annwyl Dinesydd,

Gwisgo sanau am goesau bwrdd.

A glywsoc'h chi am yr arfer rhyfeddol o orchuddio coesau bwrdd a sanau gwlan? Gymaint oedd y parch a delid i fyrrdau mahogani gan deuluoedd yn ne Cymru ar ddechrau'r ganrif hon nes bod y gwragedd yn eu gorchuddio o'u pen i'w traed! Fel arfer rhoid gorchudd "chenille" dros wyneb y bwrdd a gwisgid sanau gwlan am eu coesau. Amddiffyn y pren rhag cael ei niweidio gan draed afrosgo oedd pwrpas honedig y sanau.

'Roedd yr arfer o guddio rhannau arbennig o ddodrefn tŷ yn nodweddiadol iawn o gyfnod oes Fictoria. Ceid gorchudd yn hongian wrth y silff ben tan a gwelid "valances" yn hongian o gwmpas traed y gwely a'r soffâ. Nid oedd yn weddus i ddangos coesau o unrhyw fath yn ôl rheolau moeseg y cyfnod.

Yn ddiweddar clywais am yr arfer o guddio coesau byrddau yn Ne Cymru yn nhridegau'r ganrif hon, arfer oedd yn deillio, yn ddiau, o gyfnod Fictoria, ond a oedd bellach yn cael ei gadw o safbwynt ymarferol yn unig. Rwyf yn awyddus iawn i gasglu mwy o wybodaeth am yr arfer hwn yng Nghymru. Ai arfer cyfyngedig i'r ardaloedd diwydiannol yn ne ddwyrain Cymru ydoedd? Pa fath o orchuddion a ddefnyddid i'r pwrpas hwn, e.e. sanau gwlan, gorchuddion gingham? A oedd enwau lleol arnynt?

Os oes gan eich darllenwyr unrhyw wybodaeth perthnasol i'r arfer diddorol hwn byddaf yn ddiolchgar iawn os dont i gysylltiad â mi.

Yr eiddoch yn gywir
S. Minwel Tibbott.

Y Dinesydd yn diolch i

PHYLLIS A MERED

Nos Wener 20 Medi
yng Nghoed y Pry,
3 Llandennis Avenue
o 8.00 o'r gloch ymlaen.

Lluniaeth ysgafn
a chyfle i sgwrsio.

Nifer cyfyngedig o docynnau
£3.00 yn unig
- y cyntaf i'r felin piau hi!

Ffoniwch: Shan Emlyn 751469

Ffarwel Mered a Phyllis

EFALLAI Y GALLAF ei ystyried fel un o'r ffrindiau gorau a gefais ar y ddaear hon. Mae'n siwr fod cymaint o bobl yn medru gwneud yr un ymfrost. Mae'n siwr fod y gosodiad yn swnio'n fympwyol, ond fe allwn ddechrau dwsinau o straeon yn dechrau, - "Ryd i'n cofio Mered a fi"

Ag yntau a Phyllis yn ymddeol adref, mae'r gosodiad yn ymylu ar fod yn arwrgan, ond y ddau yn gadael y ddinas a dychwelyd i Gwm Ystwyth. Adref i Mered, a bod yn fanwl gywir, ydi 'Stiniog, yr acer sgwar na all ef ddianc ohoni yn y pendraw, fwy na llawer arall o garedigion y Gymru hon.

Nid af ati i geisio "athronyddu" na ffwmdro "rhesymegu" y gosodiad hwn. Mered oedd yr athronydd a'r rhesymegwr mwyaf afresymol y gwn amdano, mae yn dwlp o wybodaeth a'i galon yn mynd i bob cyfeiriad.

Pan ofynodd Shan Emlyn i mi ysgrifennu'r ychydig eiriau yma, am fod ei garedigrwydd ef, a Phyl, yn gadael daear Caerdydd o leiaf - fflachiadau ddaeth i'm meddwl.

Bron ugain mlynedd yn ôl ymunais â'r BBC yng Nghymru i weithio fel cyfarwyddwr yn Adran Mered, Adran Adloniant Ysgafn. Pflachiadau:

Rhoddodd y cyfle i'm hen gyfaill, Ryan Davies, ymuno fel adlonwr llawn mewn teledu.

Aeth y ddau ohonom, a nhad, allan am beint yn Nhal-y-llyn, Meirionydd. Mered yn trafod y syniad oedd ganddo yn ei ben am raglen yn ymwneud â diwylliant Cefn Gwlad. A dyma 'rhen ddyn fy nhad, oedd wedi darllen nemor ddim ond y Beibl yn dweud:

"Mynd i feusydd Moab, hefo Ruth a Naomi i loffa yda chi".

"Nefoedd", medda Mered, "rwyf ti wedi rhoi y teitl i mi". A "Lloffa" fu hi.

Fe ges i'r gora arno fo unwaith. Roeddwn i'n cyfarwyddo "Disc a Dawn", ac yn gwneud ffilm tua dwy-dair munud ym mhob rhaglen. Ffilm gyda merchaid ar lan môr neu ar ben mynydd, sef Traeth y Barri, neu Fynydd Caerffili. Sefyllfaoedd 'roeddwn i'n eu galw "the low budget badlands". A Mered fel pob Pennaeth yn gyndyn o roi ei fysedd yn y pwr, ac yn dweud wrtho i:

"Rhydd, môr ydy' môr, a mynydd ydy' mynydd".

Sut bynnag, fe ysgrifennodd Frank Hennessey gan am yr "Hen Dderwen Ddu" yng Nghaerfyrddin. Euthum ati i gyfieithu'r gan honno. Roedd y cynhyrchydd, Ruth Price, am gael ffilm o'r gân, a dyma fi'n mynd at Mered, y "tsieff", a dweud wrtho:

"Mered, os wyt ti'n gwybod am dderwen ddu yn nes na Chaerfyrddin, gad i mi wybod". Fe chwerthodd nerth ei ben a dweud wrtho i:

"Jos, rwyf ti'n iawn".

Fe allwn fynd ymlaen, llith ar ôl llith, am fy nghyfaill, a Phyl hefyd - Phyl yn canu aria o "Madame Butterfly", "One Fine Day". Chlywais i ddim mwy gwefreiddiol erioed, yn nhy Doc Fred ac Eirwen Richards. Pobol hynod o garedig.

Fe allwn fynd ymlaen am lyfr cyfan.

Mered a'm cyflwynydd i W.B. Yeats. Cefais ddarlithoedd Prifysgol ganddo, mewn siop win yng Nghaerdydd.

Sut mae rhywun yn dehongli hyn i gyd? Canwr, Ysgolhaig, Adlonwr, deall ein pobol ni fel y ma' nhw, Trefnydd, Athronydd, canwr gwerin gorau ein pobol.

Yn fy marn i fe allai Mered wedi gwneud teledu a radio yng Nghymru olygu llawer mwy.

"Bias", medda chi, yng ngeiriau Wil Sam yn Ifans y Tryc.

Scersli bilif.

RHYDDERCH JONES.

Ymateb!

Ysgol y Berwyn
Y Bala

Annwyl Dinesydd

A gaf i fanteisio ar golofnau'r Dinesydd i ddiolch yn gynnes iawn i rieni a theuluoedd Rhiwbeina am y croeso i blant yr ysgol hon ar achlysur yr Eisteddfod. Rydym yn sylweddoli ac yn gwerthfawrogi yr ymdrech a'r caredigrwydd mawr.

Diolch, yn arbennig, i gynrychiolwyr lleol y Pwyllgor Llety am ein croesawu yn y ganolfan a'n gwasgar i'r llety ac am fanyldeb y gofal trosom.

Llongyfarchion ar y trefniadau i gyd.

Yn gywir,
Iwan Bryn Williams
Prifathro.

Caerwylan
Ystad Nantbychan,
Moelfre,
Ynys Mon.

Annwyl Dinesydd

Dim ond nodyn i ddweud i mi ymweld â'r maes ddwywaith yn ystod yr wythnos ddwethaf a mwynhau'r awyrgylch hapus ac ambell stondin fel stondin Ebeneser, fy hen gapel.

Prynais gopi o'r Dinesydd a chael yr erthyglau "Gwilym yn Cofio" a "Sbec ar y Pentre" yn hynod ddiddorol oherwydd i mi fyw yn Rhiwbeina o 1951 hyd at 1966.

Ar ddydd Iau roedd y tywydd mor fendigedig eithum am dro o'r Orsaf heibio Taml y Sikhs, Caffi Ffordd y Bontfaen, Gerddi Victoria a Thompson, Canolfan yr Urdd, y maes, a Chlwb Ifor Bach. Ysyaeth nid oedd pastai Clarks ar gael yno!

Cofion gorau
Wynne Lewis.

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf
Llandaf

Annwyl Dinesydd,

Roedd Leigh a Steven wrth eu bodd i dderbyn y wobwr am werthu'r Dinesydd. Diolch i chi am eich cefnogaeth cyn ac yn ystod yr eisteddfod - fe allwn ymhyfrydu yn ei llwyddiant.

Rwy'n angau siec o £60 fel cyfraniad, o'r ysgol, tuag at Y Dinesydd.

Cofion cynnes

J.E.Malcolm Thomas
Prifathro

Ond rhoswch chi am funud, Adferwyr a gwrth-Gaerdyddiaid. Nid pizzas a choctels yw'r cyfan. Yn yr un rhifyn o'r Dinesydd adroddir hanes cyfarfod sefydlu gweinidog newydd Bethlehem, Gwaelod y Garth. Roedd y capel "dan ei sang", meddai'r gohebydd. Pa bryd y bu unrhyw un o gapeli Dyffryn Ogwen dan ei sang ddiwethaf? A pha bryd y digwyddodd hyn ddiwethaf: "ar y Sul cyntaf wedi'r sefydlu bedyddiodd bump o fabanod, a phump arall ar y Sul cantlynol, a derbyn saith o aelodau newydd i'r eglwys."

Mi ydach chi, Frogarwyr gwledig, yn llygad eich lle. 'Dydi Caerdydd ddim fel gweddill Cymru. Nae ydi, diolch i'r nefoedd.

Vaughan Hughes,
Y Faner, Mehefin 14, 1985.

'Dydwi ddim am feirniadu crachach dosbarth-canol Caerdydd — dim ond un peth ddyweda' i Vaughan — peidiwch â chredu fod y gwirionedd i gyd yn Y Dinesydd. Os y cewch chi gyfle rywbryd, dadansoddwch aelodaeth y capel yng Ngwaelod-y-Garth. Fel y gwelwch chi 'dydy popeth 'da chi'n ddarllen mewn papur newydd, hyd yn oed yn y papurau bro, ddim bob amser yn wir.

Gwilym Owen,
Y Faner, Mehefin 21, 1985.

Gwelir uchod pytiau byr a gymerwyd allan o ddau erthygl a ymddangosodd yn Y Faner yn dilyn Eisteddfod yr Urdd. Cafwyd ymateb pellach gan un o ohebwy'r lleol y Dinesydd yng Ngwaelod-y-Garth.

MAE'R DINESYDD WEDI bod yn ffodus iawn yn dal i fyny â'r arbenigwr bach ar bob peth dan haul y greadigaeth hon, o bêl droed i grefydd, o seicoleg i seiciatryddieth, o fod yn farnwr i fod yn ddyfarnwr, o wleidyddiaeth bosc sebon i wleidyddiaeth San Steffan. Ia, sôn yr ydym am neb mwy na'r "hen uffarn bach o Fôn" chwedl El Bandito", sef Gwilym "gwybod pob peth am bob dim, a fi sy'n iawn pob tro" Owen.

DINESYDD: Croeso atom ni Gwilym. GWILYM: Galwch fi'n Mr Owen os gwelwch yn dda.

DIN: Croeso ato ni Gwilym Mr.Owen

MR.O: Ia, ia, iawn, iawn.

DIN:Sut ydach chi wedi dod i gael eich cyfrif yn awdurdod ar bob awdurdod?

MR.O: Wel, y .. iawn .. y .. ydi' .. ydi' .. ia.

DIN: Ac fel darlledwr ar bob math o bob dim mae'n debyg fod gennych chi'r gwirionedd am bob dim bob tro ond toes?

MR.O: Y! oes . oes . y . ia . ia .. y ..y.

DIN: Ac mae'r hawl gennych chi i gollfarnu a beirniadu pawb a phob dim yn ôl eich mympwy?

MR.O: Oes, oes, siwr iawn .. ydi .. ydi . y . y.

DIN: ac mae'ch gwybodaeth chi am grefydd yn ddibendraw siwr o fod?

MR.O: Ydi, ydi, ydi, siwr o fod, siwr o fod.

DIN: A beth yw eich sylwadau am gymhellion pobl sy'n mynychu capeli ar gyrion y brifddinas?

MR.O: Wel, mae'n y ... ydi, ydi, siwr iawn, do .. do.

DIN: Ond mae gennych ffeithiau pendant yn sail i'ch gosodiadau ynglŷn â chynulleidfa Bethlehem, Gwaelod-y-Garth?

MR.O: Oes, oes, oes, y, y, y, oes!

DIN: Ac yn eich dwylo chi mae'r dyfodol bellach hefyd wrth gwr?

MR.O: Ia, ia, ydi, ydi, iawn, iawn.

DIN: Ac i gloi'r sgwrs ddifyr, athronyddol, ddiwinyddol hon Mr.

Owen, rhwch imi gip ar eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol?

MR.O: Wel, y .. ym ..y, oes, iawn, iawn.

DIN: Diolch am eich parodrwydd i iselhau eich hun i roi cyfweiliad i racsyn o bapur bro dinas gosmopolitan Caerdydd. Mae wedi bod yn bleser o'r lleiaf cael rhannu eich profiadau â mi. Nid yn aml y mae'r Dinesydd yn cael y fath gyfle i roi llais i'r Meseia nesaf, yr arch-sinig, a'r uwch arch-fethiant o wleidydd hefo andros o 'w' bach ac 'f' fawr. Pan fyddwch yn taro draw i'r brifddinas nesaf i gyrchu'ch sieciau bras o du llandaf peidiwch ag aros yn hwy nag sydd yn rhaid i chi. Amen.

I BA LE GWERINOL
YR A I HENO TYBED-
CLWB Y BÎB, NEU GLWBHTV?



Colofn Shân Emlyn

ATGOF HAPUS BYRLYMUS yw Eisteddfod yr Urdd Caerdydd bellach a'r gweithwyr diflino yn cael egwyl fach cyn wynebu ein gwyliau eraill, Llangollen a'r Rhyf. At'i gilydd tydy'r Bod Mawr ddim yn Eisteddfodwr brwd iawn, gan mai'r dilledyn mwya' ymarferol i'w brynu ar gyfer Eisteddfodau yw cot law. Ond eleni bu'n drugarog a thynnu plwg y glaw ar y Sul a'r Llun cyn y Steddfod a'i sodro nôl yn dynn fore Mawrth, gan goroni holl ymdrechion gweithwyr yr Urdd yn y brifddinas. Gwled o wythnos yn wir.

Ddarllenwyr, mi fyddwch yn synhwyro erbyn hyn nad oes gen i syniad, na gwreiddiol na difyr i'r golofn hon y mis yma. Felly mi rannai efo chi yr hyn sydd ar fy meddwl i y dyddiau na. Chydig wythnosau yn ôl ffoniodd Mari o Lundain a deud, "Mam, mae gen i newyddion drwg i chi." Bydd pob mam yn deall pan ddweda i i 'nghalon roi tro disgyn i'm sodlau. "Wel", medda hi, "newyddion drwg i CHI" - "Be sy, del bach?", medda finna, "Dwy di prynu CATH FACH."

Wedi ennud o ddistawrwydd mud a chymryd gwynt, medda fi, "Be ar wyneb y ddaear ddaeth dros dy ben di, dwyt ti riced yn meddwl dwad a hi yma?" "Mae hi'n lyfli, mam. Grwddi ydy henw hi - ond mae nhw'n tynnu nghoes i yn y coleg, achos mae'n debyg bod na Y Fronts o'r enw GRUNDY ar gael."

Oddi ar yr alwad ffôn honno rydw i wedi bod yn dyfalu sut ydw i'n mynd i ymgodymu â'r aelod blewog yma o'r teulu. Dalltwch chi, mae bod yn agos at unrhyw gath yn codi croed gwydd arna i. Wedi'r cyfan, y fi sydd yma rownd y ril, a rilio rownda i y bydd hi. Be wna? Wrth eistedd ar y sofffa yn sgwennu'r hyn o lith mae na benguin - Llwyd ab Iwan - ddaeth yr holl ffordd o'r Wladfa wedi'i stwffio llonydd wrth y lle tan. Syniad hurt! Wel mae traffig Cyncoed Rd reit drwm, ella bydd rhagluniaeth yn garedig wrthai!

Dwi'n gwaredu wrth feddwl be sy o mlaen i. Wedi gwamalu yr unig ffordd i dderbyn neges yr alwad ffôn, ydy deud drosodd a throsodd wrthai'n hun - Mae'n debyg y gallai merch ifanc o Lundain dorri gwaeth newydd i'w Mam.

ALLEZ BRO EIRWG

Y DYDD MAWRTH wedi'r Pasg oedd hi a'r dydd hir ddisgwyliedig wedi cyrraedd o'r diwedd. A fyddai'r bws yno tybed? A oedd un o'r plant wedi cael ei gymryd yn sal? Pa fath groeso fyddai yn ein disgwyl yn Nantes?

Yr oedd Ysgol Bro Eirwg wedi bod yn paratoi yn ddiwyd ers rhai misoedd ar gyfer yr ymweliad â Nantes, gefeilldref Caerdydd yn Ffrainc. Parti o ddawnsyrwyr gwerin ynghyd ag offerynwyr oedd yn mynd i ddawnsio yn Ffair Ryngwladol Nantes.

Fel y gellid disgwyl, ni fu'r paratoadau heb eu problemau. Nid oedd unrhyw ysgol gynradd erioed wedi dangos diddordeb mewn ymweliad i Nantes ac felly nid oedd patrwm ar gael i'w ddilyn na neb y gellid troi ato am gyngor. Ond o gyfeiriad y Swyddfa Drwyddedau Teithio Casgliadol yng Nghasnewydd y daeth y poendod mwya'. Yr oeddent yn gwrthod yn bendant i'r ysgol gael trwydded deithio yn enw'r ysgol am fod yr enw hwnnw yn Gymraeg. Do, mi gafwyd trwydded teithio ond "The Welsh Primary at St. Mellons" oedd yr enw a ymddangosai arno. Bu'n rhaid apelio at Lysgenhadaeth Ffrainc a chael cadarnhad oddiwrthynt hwy bod enw'r ysgol yn dderbyniol cyn i'r Swyddfa Trwyddedau Teithio ildio.

Bu'r siwrne draw i Nantes yn hwylus iawn a'r môr yn llyfn dros ben, ond roedd golwg flinedig ar ambell i blentyn wedi rhialtwch y noson cynt ar y llong. Y noson honno cawsom wahoddiad i fynd i'r clwb Llydewig yn Nantes. Cawsom noson Geltaidd wych. Wedi i'r plant ddiddanu'r Llydawyr mi wnaethon nhw ein diddanu ninnau gyda'u caneuon a'u dawnsfeyrid hwythau. Roedd hi'n unarddeg ac yn amser i fynd cyn pen dim. Yn addas iawn daeth y noson i ben gyda "Hen Wlad Fy Nhadau" yn y Gymraeg a'r Llydaweg.

Bore trannoeth, wedi bwrw'n

blino i ffwrdd â ni i'r ffair i ddawnsio. Yn anffodus roedd y tywydd braidd yn Eisteddfodol a'r gynulleidfa braidd yn denau o ganlyniad ond cawsom dderbyniad brwdfrydig serch hynny. Braidd yn siomedig oedden ni i ddarganfod mai pwyslais masnachol yn hytrach na diwylliannol oedd i'r ffair - ond roedd hynny'n siwtio'r plant yn iawn - o leia roedd digon o ddewis wrth brynu anrhegion a digon o fwydydd gwahanol i'w blasu.

Yn hwyr y prynhawn roedd rhaid paratoi ar gyfer perfformiad arall - a hynny ym mharlwr y Maer. Wedi derbyniad swyddogol a'r dawnsio roedd gwled i bawb a llawn tŷ o groeso. Ceidwadol iawn yw plant wrth ddewis bwyd ac nid yw plant Bro Eirwg damaid yn wahanol. Ar y cyfan codi eu trwynau ar fwyd Ffrengig wna'r plant ond ar y ffordd nôl i'r gwesty gwelodd rhywun "Macdonalds". Nid oes eisiau gofyn lle aeth pawb i swpera y noson honno. A dweud y gwir roedd eu bwyd nhw'n flasus hefyd.

Trannoeth wedi dawnsio o brif sgwar y dref, trio i'r ffair eto yna ymweliad yn y prynhawn a Point Barbe - clwb ieuenctid dyddiol i blant dan ddeuddeg oed. Mae ysgolion Nantes ar gau bob dydd Iau ac mae nifer helaeth o blant yn mynychu canolfannau o'r fath. Cawsom sioe bypedau ganddynt a pharti arall eto! Gan roedd rhaid codi am 3.00 fore trannoeth roedd rhaid gadael yn gynnar.

Helyntus a dweud y lleiaf oedd y siwrne nôl - yn ddi-drafferth o Nantes i St. Malo. Treuliwyd y rhan fwyaf o'r daith naw awr i St. Malo i Portsmouth mewn storon a gwynt nerth 8. Ag eithrio dau blentyn a dau oedolyn bu pawb yn sâl, rhai drwy gydol y siwrne. Serch hynny cawsom amser bendigedig ac yn bendant mi fyddwn nôl yn Nantes eto adeg y Pasg '85.

TH AR WERTH AR WERTH AR WERTH AR
WERTH AR WERTH AR WERTH AR WERTH

FFLAT YN LLANDAF

Mewn datblygiad modern a moethus

Golygfa hardd dros gaeau Llandaf

2 Ystafell wely
Ystafell fwya/Lolfa
Cegin Foethus
Ystafell ymolch
Man parcio preifat

Cysylltwch a: 553523
(gyda'r hwyr)

TAFLEN

LLYFRAU,
CARDIAU, PAPURAU,
RECORDIAU, CASETIAU.

Canolfan yr Urdd,
Heol Conwy,
Caerdydd. 27530.

Ar ystod 7 o'r gloch (5 o'r nos Seder).

CYFANODER POB ILW I
GANOLFAN YR URDD, CAERDYDD

"BETH AM DY lyfra'? Wyt ti'n credu y medri di fynd yn d'ôl i weithio'n y coleg? Fyddi di'n dal i fod isio mynd i'r coleg wedyn?"

Oedd, mi roedd yna amheuan, ond nid f'amheuan i mohonynt. Eisoes, yr oeddwn wedi penderfynu cymryd blwyddyn sabathol cyn cychwyn ar yrfa yn y coleg, ac yn barod yn gwyntyllu syniadau ynglŷn â'r hyn y gallwn ei wneud yn ystod y flwyddyn oedd i ddod.

Yr oedd hynny dros ddeunaw mis yn ôl, a bellach ond cwta dri mis sydd gennyf cyn cychwyn am y Coleg ger y Lli. Petai gofod yn caniatáu i mi roi hanes y flwyddyn gyfan, mi fyddai angen rhifyn cyfan o'r Dinesydd arna'i, ac felly dim ond braslun byr o'r prif ddigwyddiadau y medra i eu rhoi yma, ynghyd a hanes fy hynt diweddaraf - yn Israel!

Bum am gyfnod yn un o'r tair miliwn a mwy sy'n ddi-waith cyn llwyddo i fachu swydd dros dro, ym mis Mawrth, gydag Arolygydd Trethi ei Mawrhydi yn y Gabalfa. Mis yn unig barhaodd y gwaith hwnnw ond roedd y profiad o weithio mewn swyddfeydd prysur cyn mynd i'r coleg yn brofiad gwerthfawr. Yna 'rown i 'nôl ar y clwt am gyfnod a dyna'r pryd y cefais synaid a bachu 'nghyfle i fynd allan i Israel am sbel.

Fy mwriad gwreiddiol oedd mynd allan i weithio ar Kibbutz ond 'roedd yna anhawsterau ar y pryd a olygai mai'r unig fodd y gallwn deithio allan yno fis Mai oedd os oeddwn yn barod i weithio mewn cloddfa archeolegol, a dyna a fu. Aeth y trefniadau yn hwylus chwm gyda chymorth "Project 67", sef asiant yn Llundain sydd, ymysg pethau eraill, yn arbenigo mewn cynnig gwahanol gynlluniau gwaith a gwyliau yn Israel. Dyma gychwyn felly ar bythefnos o waith a phythefnos o wyliau yng Ngwlad yr Addewid.

Wedi'r ddrama a gafwyd wrth i'r awyren lano ym maes awyr Ben Gurion trosglwyddwyd y pedwar ohonom a ddaeth gyda "Project 67" i westy yn Tel-Aviv am 4.00 a.m. ac wedi teirawr bryslog o gwsge dyma gychwyn am Gamla. Yno yr oeddwn yn mynd i fod yng nghwmni Israeliaid, Groegwyr, Rhufeiniaid, Croesgadwyr a Thwrciaid, oll yn rhyw fil neu ddwy o flynyddoedd yn hyn na mi.

Ond yno hefyd 'roedd cyfoeswyr a mi o bob rhan o'r byd, Siapan, Scandinafia, America, Ffrainc, De'r Affrig, Arabiaid, Cymry, Albanwyr a hyd yn oed ambell Sais! Rhyw fywyd cosmopolitan ond ynysig iawn sydd yn Gamla, yn ymylu ar fod yn afreal ond mae'r afrealiaeth yn braf iawn - yn union fel y tywydd yno. Rhaid imi nodi hefyd fod yr ystod oedran yn amrywio o un ar bymtheg i bymtheg a thrigain.

SHALOM

gan *David Jones*



Lleolir Gamla ryw saith milltir yn union i'r dwyrain o ben uchaf Mor Galilea neu y Kinneret fel y'i gelwir yn Israel. Gwersyll yng nghanl gwarchodfa natur Ya 'ar Yehudiyya, gyda'i heryrod, fulturiaid, nadroedd, ceirw, baeddod (a ddeuai i swpera gyda ni) ac ysgorpionau oedd fy nghartref am y pythefnos nesaf ond, yn eironig ddigon, gwersyll ydoedd a orwedda rhwng dwy o ganolfannau bomio'r Israeliaid yn y Golan.

'Roedd y gwersyll ei hun ar gyrion y gloddfa (sef hen dref Gamla). 'Does fawr o olion y dref i'w gweld ar waetha' deg haf o gloddio yno. Mae'r cyfan yn gorwedd dan rwbwl a phridd y canrifoedd a'u cuddiodd, a gwaith caled sy'n gofyn am lawer o amynedd yw ceisio datguddio'r dref drachefn, ond mae Shmariu Gutman, y prif archeolegydd yno, yn bwrw iddi gyda llawn cymaint o gariad ag o amynedd.

Dechreuau'r diwrnod gwaith rhwng 4.30 a 5.00 y bore er mwyn osgoi'r gwres canol dydd a pheidio am 8.30 pan fo hi'n amser brecwast. Brecwast nodweddiadol o wlad Israel a geir yno, sef amrywiaeth o saladau, bara, caws, wyau a ffrwythau, a dyma'r fwydlen amser cinio hefyd. Wedi gweithio o 9.30 hyd 12.30 mae dyn yn barod am hwnnw hefyd. Mae'r prynhawniau yn rhydd i'r gwirfoddolwyr eu treulio fel y mynnont. Mae dewis o dair rhaeadr y gellir ymdrochi ynddynt cyn sychu yn yr haul neu orweddian yn y cysgod os yw'r haul yn llethol. Ond rhaid cychwyn yn ôl i'r gwersyll tua'r 5.00 p.m. i dreulio awr neu ddwy yn golchi a sgwrio'r crochenwaith a ddarganfyddwyd yn ystod y bore.

Am 7.00 p.m. fe ddaw'r jîp i lawr â'n swper a'n bwyd trannoeth, ac erbyn 10.00 mae pawb yn barod am eu gwelyau. Bob prynhawn Llun mae un o arweinwyr y gloddfa yn mynd a'r newydd-ddyfodiaid ar

daith addysgiadol o'i chwmpas, ac wedi swper ambell noson ceir darlith neu sioe sleidiau yn ymwneud ag archeoleg Israel. Mae'r penwythnodsau yn rhydd i deithio'r wlad os dymunir a dyna'r hyn y parheais i'w wneud wedi gorffen fy mhythefnos yn Gamla.

Yr oeddwn eisoes wedi bod yn Tel-Aviv, Haifa, Acco a Nasareth, ac felly dyma gychwyn am Jeriwsalem a threulio tridiau llawn iawn yno yn gweld y prif atyniadau i dwristiaid. Gallwn yn hawdd fod wedi aros yno am wythnos a mwy ond 'roedd fy amser yn brin. Yn ystod y pum niwrnod nesaf ymwelais â Beer Sheva sef yr hen dref sy'n ganolfan i holl fywyd Anialwch y Negev, ac a Masada sydd a'i hanes yn ailadrodd, air am air bron, yr hyn a ddigwyddodd yn gamla hithau 67 O.C. adeg gwrthryfel yr Iddewon yn erbyn y Rhufeiniaid. Yna euthum i lawr i Elat ar lanna'r Môr Coch, nid nepell o Tabah y mae cymaint o sôn amdani yn y newyddion y dyddiau hyn.

Yno y gwelais y cwrel anhygoel dan y mor a theimlo'r gwres llethol ar ei lan (F110). Yno, yn Elat, cefais gadarnhad o swyddfa "Project 67" yn Tel-Aviv y gallwn aros am gyfnod yn Israel. I fyny felly â mi i En Gedi ar lannau'r Môr Marw ac arnofio ar y dwr arbennig yno; ymlaen wedyn i Tiberias ar lannau Môr Galilea.

'Doedd dim amdani ond dychwelyd i Gamla. Doedd y dewis ddim yn anodd gan fod fy arain bellach yn brin! Ac felly dyma fwynhau pythefnos arall yng nghwmni criw gwahanol o bobl o bob rhan o'r byd yn dadorchuddio peth o hen hanes gwlad Israel. Mae'n wir ei bod yn braf cael dod adref, ar waetha'r glaw, ond 'dwi'n siwr o un peth; mi fydda' i'n ol yn cloddio yn Gamla yn reit fuan. Hwyrach y gwela' i chi yno! Shalom!

BUTH RUTH

WEL DYNA MADAM Cadeirydd wedi cael mwynhau dau o'i phrif ddileits ers i mi gael eich cwmni chi ddiwethaf - Steddifod yr Urdd a phythefnos Wimbledon. Dwi'n deall fod y cyrtens ar agor drwy'r dydd eto yng Nghoed y Pry a Shân Enlyn i'w gweld allan yn y pwn!

Os ydy madam cadeirydd yn fodlon, mi a'i â chi hefo mi i brofi fy nileits i - y Sioe Frenhinol yn Stonleigh ddechre'r mis ag Eisteddfod yr Anifeiliaid yn Llanelwedd ddiwedd y mis.

Dwi newydd ddod nôl wedi dau ddiwrnod yn Stoneleigh - bendigedig! Roedd y Pafiliwn Cymreig yn werth ei weld - wedi'i baentio'n wyrdd a gwyn a'r ddraig goch yn falch iawn o'i le uwchben. Hysbysebion a chynnyrch yr hen wlad yn werth eu gweld - gwerthu ar

dwristiaeth, gwlan, gwaith coed, dillad a chig - a'n hanifeiliaid yn wartheg duon ag ŵyn Cymru yn amlycach nag anifeiliaid neb arall. mi fuasen yn cael gwobr gen i er mai ennill busnes i'r rhai sy'n bridio ydi'r amcan. ac mi roedd Heather Jones a'i gitar yn swynol iawn yn y cefndir.

ond dowch hefo mi heibio i ganolfan lliwgar yr Iseldiroedd, lle mae nhw'n arddangos llw o ffrwythau ag yn gwerthu lager a chaws. mi awn ni rwan drwy ganolfan yr Almaen - peiriannau ar y llaw chwith ag yna o dan y to gwellt mae na dair siop yn gwerthu gwahanol fathau ar frankfurters (sosej) mewn rholion bara gwlan cotwm gwyn a chwrw.

yr unig stondin i guro rhain i gyd ar hyd y blyneddoddd ydi stondin Iwerddon - arddangosfa dda o gynyrch llaeth, bustuch clen yn cael eu dangos a chroeso cynnes Gwyddelig ar ben y rhes hir o bobol sy'n aros yn awchus am frechdan stec - a honno'n un dda.

Dowch rwan hefo mi i lawr i'r Neuadd fwyd - heibio stondinau drudfawr Marks & Spencer a Harrods, heibio i arddangosfa o goginio yn defnyddio wyau a chyfle i ni brynu'r cynyrch Omlette neu gremppog neu frechdanau - rownd y gorwel a

dyna i chi ogle da - ag o dan enw'r stondin "Antur Ŵyn Cymru" dyna lle roedd Nick Salik (bachgen o riuweina sy'n dysgu bwtseriaid Cymru sut mae torri cig oen Cymru yn doriadau di-asgwrn) a nesa ato fo Nigel James o'r M.L.C. (Comiwn Cig a Da Byw) a'r ddau ohonyr nhw mewn barcodau gwyn a hetiau fel chefs wrthi'n coginio Kebabs cig oen i giw di-ddiwedd o bobl oedd ar fin cael profiad gourme-aidd.

Dyna stondin werth ei gweld ag oni bai fod gen i siwrmai mewn car poeth mi faswn wedi prynu cig at y Sul yno - stec folant (siap calon) efallai, neu galon oen wedi stwffio - roedd yno fyrdd o ddewis toriadau.

Mi ddois i o'r sioe a gwen ar fy ngwyneb wrth feddwl am y ddau wr ifanc Nick a Nigel wrthi'n gwneud gwaith da wrth werthu un o'r cigoedd blasusa sydd ar gael i bobl Coventry, Birmingham, Leamington Spa a'r dynion busnes o bob cwr o'r byd - dyna nhw'n rhoi Cymru ar fap y gourmet.

Cofiwch mae bosib i chi gael blasu rhain yn' ein sioe ni ddiwedd Gorffennaf - dowch yno i fwynhau cwmpein'r ffamwrs a'u gwagedd rhadlon, i weld brwdfrydd y Ffermyr Ifanc a bodlonrwydd yr anifeiliaid - wela'i chi yno!



ER BOD UN PERSON yn arbennig yn tynnu fy nghoes pan fyddaf yn sôn am goginio allan o'r barbyciw (ar y patio!) nid oes angen cael tŷ pedair lloft mewn maesdref o Gaerdydd i sylweddoli mai profiad pleserus iawn yw paratoi bwyd yn y dull hwn. Mae coginio ar y barbyciw yn broses cyfaredol lle gellir trawsffurfio pryd o fwyd cyffredin yn brofiad blasu a phersawrus.

Mae'r broses yn rhagori ar derfynau traddodiadol y gegin a gwelir gwrthdroad rôl: y dynion sy'n gwisgo'r ffedogau, hyd yn oed y rhai sy'n methu paratoi bins ar dost yn y gegin gonfensiynol. Gwelir hwynt yn ail fyw eu dyddiau gwsylla efo'r Urdd neu'r Sgows. Gyda'u llygaid yn lliw a'u bysedd yn llosgi, dodant baratodau ecsotig ar sgiwerau a'u cynnig i'r golosg crasgoch o'r allor metel a elwir yn barbyciw.

Fe ddylai'r rysetiau canlynol sicrhau nad ydy'r profiad yn un o losgiadau eilradd selsig wedi'u crebachu. Felly dilynwch hwynt a mwynhewch yr hwyl o ddatblygu

blasau eich hoff fwydydd.

Y cynhwysion mwyaf angenrheidiol ar gyfer barbyciw yw cwmni ffrindiau, tipyn o gerddoriaeth ysgafn a haul, haul a haul! Mwynhewch eich hunain dros y gwyliau.

CYWIAR MEWN LEMMN A RHOSMARI

4 darn o gyw iar

Bast:

3 owns o fenyn

2 llond llwy fwrdd o sudd lemm

1 llond llwy de o halen

1 llond llwy de o bupur gwyn

1/2 llond llwy de o bupur paprika rhosmari ffres

Saws Lemm:

2 clof o arllwg wedi'u mathru

nionyn wedi'i olwytho

2-3 llond llwy fwrdd o olew

olewydden

2 llond llwy fwrdd o puree tomato

4 llond llwy fwrdd o siwgr brown bras

2 llond llwy de o flawd corn

sudd a chroen un oren

sudd 2 lemm

2 llond llwy fwrdd o saws

Caerwrangon

halen a phupur du

1/4 peint o win coch

1. Toddwch y menyng ac ychwanegwch i'r cynhwysion eraill i wneud y bast.

2. Rhwch y darnau cyw iar ar ridyll y barbyciw, coginiwch am 30 - 40 munud gan ychwanegu'r bast yn ystod y coginio i'w gadw'n llaith. Trowch y cyw iar yn aml.

3. Ychydig cyn terfyn yr amser coginio lluchiwch ychydig sbrigau o rosmari ar y golosg i roi blas danteithiol i'r cig.

Gweinwch gyda'r saws lemm.

Saws lemm:

4. Coginiwch y garlleg a'r nionyn yn yr olew hyd nes eu bod yn feddal.

5. Cyfunwch y cynhwysion eraill gyda'i gilydd yna ychwanegwch y nionyn a'r olewchydig ar y tro hyd nes mae'r saws yn twchu. gorchuddiwch a mudferwch am 20 munud. Hidlwch y saws cyn ei arllwys.

CIG OEN WEDI'I BERLYSU

1.5 pwys o gig oen heb asgwrn (mewn ciwbiau)

12 nionyn bach

12 madarch

2 bupur gwyrdd

Marined:

1/4 peint o saws Caerwrangon

4 llond llwy frwdd o ddwr

2 llond llwy frwdd o olew

1 nionyn wedi'i olwytho'n fan

2 llond llwy de o siwgr

1 llond llwy de o halen

1. Cyfunwch cynhwysion y marined gyda'i gilydd mewn sosban a mudferwch am 10 munud.

2. Rhwch y cig mewn bowlen, arllwyswch y marined drosto a gadewch am ddwy awr.

Parhad ar dudalen 10.



Y Gorau yn Gyson i Gymru

Cynhyrcha HTV Cymru amrywiaeth
mawr o raglenni teledu
ar gyfer S4C

Daw ein rhaglenni o bedwar ban y byd yn ogystal ag o
Gymru – o'n canolfannau teledu yng Nghaerdydd a'r
Wyddgrug, a thrwy gyfrwng ein hunedau, ein
cynhyrchwyr a'n cyflwynwyr, ym Mangor a
Chaerfyrddin. Ymunwch â'r Cyffro Teledu drwy raglenni



ar

S4C

Y Gorau yn Gyson i Gymru

TEGID A'I DEBYG

DYMA'R AIL BENNOD yng nghyfres DUNCAN PUGH, dysgwr, sydd wedi olrhain hanes enwau llefydd yng Nghaerdydd a'r cylch. Y tro hwn cawn fwrw golwg ar hanes y Caerau a Threlai.

Y CAERAU

Ers llawer dydd, a hyd heddiw, arhosai'r teithiwr blinedig yn EFAIL Y DWST - Dusty Forge - hen orffwysfan gyferbyn â phentre'r CAERAU. I'r de gallai weld yr allt yn codi dros y caeau lle mae'r ystadau tai nawr. Dyma'r freiddin neu fryngaer o'r Oes Haearn a roddodd ei enw i'r pentref. Mae'n debyg ei fod yn lloches i drigolion yr aneddfeydd o boptu i Ryd Sarn (Pont Elai heddiw). Ond roedd y gaer hefyd yn fan strategol er amddiffyn dyffrynnoedd Elai a Thaf yn erbyn concwerydd, megis llwythau eraill o Geltiaid cynnar neu'r Rhufeiniaid. Tybed i ba frwydrau y bu'r waliau yma'r dyst yn ystod goresgyniad y llengoedd? Yn anffodus doedd gan Tegid (Tacitus) a'i debyg ddim llawer i'w ysgrifennu am ein hardal ni, a does dim cloddio archaeolegol wedi bod yn y gaer.

Tybir i'r mwnt yng nghwr gogledd-orllewinol y gaer fod yn rhan o gastell o'r 11eg ganrif. Honna rhai i'r castell fod yn rhan o arglwyddiaeth Gymreig ar un adeg, yn ogystal â bod yn amddiffynfa i'r Normaniaid, neu'r Ffrancwyr, fel yr adwaenid hwy gan y Cymry. Cafodd y blaenaf dipyn o ben tost oherwydd y gwrthsafiad cryf a fu yma yng nghwmwd Llandaf.

Yn ôl y chwedlau sydd yn y "Cardiff Records" torrwyd ar hyn gan Syr John Fleming, cyd-farchog i goncwerwr Morgannwg, Robert Fitzhamon. Dechreuodd ef yrru'r ffermyr hynny o Gymry allan, yr oedd yn well ganddyn nhw fyw dan eu cyfreithiau eu hunain; fe roddwyd yn eu lle wladychwyr o Fflandrys a Lloegr - roedd y rhain yn llai aflonydd! Fel ôl-nodyn diweddar i hyn, cyhoeddwyd llythyr yn y South Wales Echo yn ddiweddar sy'n awgrymu fod yr ardal yma wedi dychwelyd at ei Gymreictod blaenorol: hyd ganol y ganrif hon byddai trigolion y ddinas yn cyfeirio at ranbarth Elai a'r Cadrau fel "THE WALA" Y mae hyn yn oroesiad hynod o'r Lladin "WALIA (PURA)" a ddefnyddid yn y Canol Oesoedd gan awdurdodau trefediagethol Caerdydd, fel petai, i ddynodi rhandir y Cymry. Yma roedd y Cymry yn y mwyafrif ac yn mynnu byw dan gyfraith Hywel Dda.

Uwchben yr hen bentref saif gweddillion Eglwys Fair o fewn

rhagfuriau'r gaer. Er bod y cysegriad i'r Santes Fair yn nodwediadol o'r Ffrancwyr/Normaniaid mae hanes am eglwys yn y cyffiniau yn ymestyn yn ôl i amser cyn y cyfnod hwnnw. Tybed beth a feddyliai'r werin a oedd am fynd i wasanaeth yn yr eglwys. Roedd rhaid iddyn nhw ddringo'r rhiw tua chastell y pendefigion! Mae fandaliaid y Caerau wedi bod mor haelionus â gadael y rhan fwyaf o gorff a thŵr yr eglwys sy'n dyddio o'r 13eg ganrif.

Mae'r fandaliaid swyddogol wedi bod yn waeth byth i'r pentref gwreiddiol ar hyd Caerau Rd. Does dim ond dau neu dri adeilad cyn 1939 wedi goroesi, fel Newhouse Farm ar gyffordd Heol Trelai.

Er hynny mae hwiangerdd wedi goroesi o'r amser pan oedd y Caerau yn bentref naturiol Cymraeg:

Yr 'en Sion Goch o'r Ceira
A eth i fodd i'r geth
Miwn cwd o ganfas newydd
Nag odd a rony'n gweith.
Y cwd eth gyda'r afon
A'r geth a deth i'r lan;
O'r 'en Sion Goch o'r Ceira
Shwd buo't ti mor wan?

(Sylwer mai ynganiad yr "E" yma ydi'r un a'r arwydd seineg "ae", sef yr un ynganiad a phobl Maldwyn gyda "blaen" neu "maen").

Ry'n ni wedi clywed am bentref gwledig y Caerau ond hefyd roedd ffermydd ar wasgar o boptu, o fewn cof y trigolion hyd yma. Aros mae Brooklands a Sweldon er enghraifft. Ond ychydig mwy nag enwau heolydd sydd yn nodi safleoedd ffermydd, fel Highmead Rd neu Red House Close, (ffferm fawr Tŷ Coch). Mae eraill eto heb nod o'u bodolaeth eithr ar hen fapiau, megis Tŷ Newydd (Chichester Way) a'r Tŷ Mawr gerllaw.

ELAI

Elai ynte Trelai? Yn ôl Steve Jones, hanesydd lleol y gymdogaeth, dichon i'r ffurf Trelai fod yn enw gwneud o'r 19eg ganrif: mae hen fapiau ag enwau Cymraeg arnyn nhw yn dangos "ELEY" O'i safle ar fan rhydio isaf afon Elai y daw tarddiad enw'r pentref: oddi yma bydd y teithiwr yn troi, naill ai tua Llandaf neu tua Chaerdydd.

Mae'n debyg fod dynion wedi anheddu yma er dyfodiad cyntaf dynolryw, wedi Oes Yr Ia, oblegid

defnyddid rhydau fel Rhyd Sarn gan yrru oedd o anifeiliaid fel y byddai dyn cyntefig yn hela. Ond cofiwch mae trigolion Elai wedi eu gwareiddio er meitin, hyd y gwn i....!

Yng nghyfnod addoli'r duwiau Celtaidd y ddefod fyddai cynnig offwrn i ysbryd y fan wrth groesi'r rhyd: byddai hyn yn ogystal â'r tâl i'r crib-ddeiliwr lleol a feddai'r moddion i groesi'r dŵr a thraed sychion! Parhai'r traddodiad hwn hyd y cyfnod Cristnogol. Erbyn y 12fed ganrif byddai'r arian offwrn yn gymorth i gynnal y bont bren ac offeiriad y capel bach yn ymyl, oedd yn perthyn i faenor Normanaidd Llandaf. Gyda llaw, pan ail-godwyd Pont Elai yn bont gerrig cyn 1536, roedd hynny hanner can mlynedd cyn Pont Treganna yng Nghaerdydd.

Ymestynnai pentref Elai ar hyd y Mill Rd presennol o'r Bwrwte hyd y melinau yd ar ben Birdies Lane. Roedd y melinau ar bwys afon Elai gyferbyn â'r "Farre water" (nant Tyllgoed). Roedd rhai o'r muriau yn dal i sefyll bum mlynedd ar hugain yn ôl. Dywed y "Cardiff Records" mai o Elai yr hanna William Jenkin, ffidlwr o fri yn yr 17eg ganrif. Roedd yn chwarae rhan bwysig iawn yn diddanu'r werin wrth gylchu'r fro. Disgwylir i ffidlwr ledaenu'r clecs a'r enllibion lleol yn ogystal ag alawon y byd. Trwy'r cyfryw foddion y clywodd pobl cefn gwlad am y swyddi breision yn y meysydd glo.

Roedd adloniant bywiog iawn yn Ffair Pont Elai, ger gwesty'r "Market" ar Orffennaf 22. Arferai sipsiwn Cymdda Lecwydd (Leckwith Common) ddod draw i werthu eu ceffylau, a heidiodd llaweroedd i'r amryfal stondinau. Byddai'n esgus hefyd i deuluoedd cyfain a cyfeillion ddiota gyda'i gilydd er anghofio caledi'r flwyddyn flaenorol. canlyniad hyn, bid siwr, oedd "trannoeth y ffair": y carchardai yn llawn meddion a throeddwy'r eraill.

LLONGYFARCH

FFYRST CLAS! Llongyfarchiadau i Peter Spriggs ar ennill gradd B.A. dosbarth cyntaf mewn celfyddyd gain yng Ngholeg Celf Caerdydd. Arlunydd arall a raddiodd yn yr un maes yw Rhys Conway, a fu'n astudio ers tair blynedd yng Ngholeg Celf Wimbledon. Gobeithiwn y caiff y bechgyn gyfle i arddangos eu gwaith yma yn y Brifddinas ac edrychwn ymlaen at weld ffrwyth eu llafur cyn bo hir.

Parhad o dudalen 7.

3. Lledferwch y nionod hyd nes eu bod yn eitha tyner. Golchwch y madarch, torrwech y pupur gwyrdd i 12 darn yr un.

4. Trefnwch y cig oen ar sgiwerau am yn ail gyda'r llysiau. Golchwch gyda'r marined.

Coginiwch ar ridyll y barbyciw am 15 munud gan ychwanegu gweddill y marined yn ystod y coginio.

5. Gweinwch gyda reis a saws tomato.

Saws tomato:

1 tun 8 owns o donatos

4 llond llwy fwrdd o saws coch

1 llond llwy fwrdd o finegr gwin coch

2 llond llwy fwrdd o olew

olewydden

pinsiaid o fwstard sych

ychydig ddafnau o saws tabasco

Cymysgwch y cynhwysion gyda'i

gilydd, mudferwch am 5 munud gan

ychwanegu sesning os bydd ei

angen.

BURGERS GARLLEG GYDA SAWS

BARBYCIW

1.5 pwys o friwgig

3 - 4 clof o arlleg wedi'i fathru

halen a phupur

6 rhol bara

1. Cymysgwch y briwgig a'r garlleg gyda'r sesning.

2. Rhannwch i 6 - 8 darn cyfartal a ffurfiwch i gacennau fflat tua 1/2 modfedd o drwch.

3. Coginiwch dros golosg crasgoch am 3 munud bob ochr.

Saws:

1 owns o fargarin

1 nionyn wedi'i olwytho'n fan

1 clof garlleg wedi'i olwytho

1/4 peint o ddŵr

1 sleisen o lemn

1 deilen bae

pinsiad o bupur cayenne

halen a phupur du

1 llond llwy fwrdd o fwstard

wedi'i baratoi.

2 llond llwy fwrdd o siwgr brown

2 llond llwy fwrdd o saws

Caerwrangon

6 llond llwy fwrdd o saws coch

6 llond llwy fwrdd o puree tomato

1. Toddwch y margarin mewn

sosban, ffriwch y nionyn a'r

garlleg hyd nes eu bod yn feddal.

2. Ychwanegwch gweddill y cynhwysion a mudferwch am 15 munud.

BERDAS WEDI'U PERLYSU

Pwys o ferdas mawr, heb eu cregym lemn wedi'i sleisio

Marined:

1 llond llwy de o bowdwr chilli

1 llond llwy fwrdd o finegr

1 clof o arlleg wedi'i fathru

halen a phupur du

10

llond llwy de o bersli wedi'i

olwytho

6 llond llwy fwrdd o olew salad

1. Curwch gynhwysion y marined gyda'i gilydd. Ychwanegwch y berdass a gadewch am ddwy awr.

2. Codwch y berdass o'r marined a rhewch nhw ar 4 sgiwer.

3. Coginiwch am 6 - 10 munud gan eu troi yn aml, arllwyswch y marined drostynt yn ystod y coginio.

4. Gweinwch yn boeth gyda'r sleisiau o lemn.

EIRIN GWLANOG EURAIDD (i 6)

12 hanner o eirin gwlanog

4 owns o fenyn

3 llond llwy fwrdd o sieri melys hufen neu hufen ia

ychydig o almonau wedi'u golwytho

1. Rhewch 2 hanner eirinen

gwlanog ar ffoil wedi'i ddyblu

gyda'r ochr sydd wedi'i dorri

agosaf at y ffoil.

2. Meddalwch y menynt, taenwch

dros yr eirin gwlanog. Coginiwch

dros golosg poeth am 5 munud.

3. Cymysgwch y sieri gyda

gweddill y menynt. Rhewch yn

ceudod yr eirin gwlanog.

Coginiwch am 8 - 10 munud.

gweinwch yn boeth gyda hufen neu

hufen ia ac almonau.

ORENAU BARBADOS

6 oren

6 llond llwy fwrdd o siwgr brown sinamon

6 llond llwy fwrdd o rym

1 owns o fenyn

hufen

1. Tynnwch y croen a'r pith oddiar yr orenau a rhannwch yn segentau.

2. Rhewch y 6 cyfran yn unigol ar ffoil wedi'u plygu'n ddau.

3. Taenwch gyda llond llwy fwrdd yr un o siwgr a rym ac ychydig o sinamon.

4. Ychwanegwch ychydig o fenyn

wedi'i dori'n ddarnau bach.

seliwh y ffoil a choginiwch dros

golosg eitha poeth am 15 - 20

munud.

5. Gweinwch yn boeth gyda hufen.

YN EISIAU YN EISIAU YN EISIAU
IAU YN EISIAU YN EISIAU YN EI:
EISIAU YN EISIAU YN EISIAU YN
YN E IAU ATHRAWES IFANC EI:
IAU EISIAU RANNU TY/FFLAT YN
YN E IAU PONTCANN, LLANDAF IAU
IAU CANTON EI:
EISI YN IAU
YN E (0443) 832488 IAU
IAU AR OL 6.00 P.M. EI:
EISI YN
YN EISIAU YN EISIAU YN EISIAU
IAU YN EISIAU YN EISIAU YN EI:
EISIAU YN EISIAU YN EISIAU YN

SÊR Y DINESYDD

EIRY PALFREY

ARIES: Amser prysur gyda'r teulu, byddwch yn barod i gael ymwelwyr di-ri. Cymrwch ofal gyda chylllyll a phwysau trwm os am ail-drefnu'r celfi.

TAURUS: Mae mis prysur o'ch blaen, yn enwedig yn y cartref. Fe fydd pob rhwystr yn diflannu'r mis hwn os am symud neu werthu'r tŷ. Efallai daw arian i'ch rhan.

GEMINI: Cymrwch ofal o'r arian, a pheidiwch da chi a chweryla yn ei gylch. Os am ddechrau mentr newydd mae canol y mis yn ffafriol iawn. Mae hwn yn fis rhamantus iawn i chi, mwynhewch ei!

CANCER: Bydd gennych ddigonedd o ynni i hybu'ch gyrfa, neu i wneud y cant a mil o bethau y buoch yn eu gohirio cyhyd.

LEO: Efallai bydd ychydig o anghydfod yn y gwaith - amynedd piau hi, a dal eich tafod gyda'ch cyd-weithwyr, er mor anodd fydd hynny. Amser ardderchog i deithio.

VIRGO: Mis pan fydd y rhan fwyaf o drefniadau'n rhedeg yn llyfn, ond i chi beidio â chweryla gyda pherthynas neu gymydog. Cauwch eich clustiau i bob clonc.

LIBRA: Cyfnod llewyrchus iawn yn y gwaith, dyma'r amser gorau i ofyn am ddyrchafiad neu godiad ariannol, ond rhaid i chi fynd ar ei ôl, neu efallai y cewch eich anghofio. Mis gwych i deithio!

SCORPIO: Os bu anghydfod rhyngoch a pherthynas neu gymydog dyma'r amser i glirio'r awyr, heb golli'ch tymer! Cyfnod llewyrchus yn y gwaith, byddwch yn ymarferol iawn eich agwedd.


SAGITTARIUS: Mis addawol iawn os am ddechrau mentr newydd.

Gofalwch na chewch eich twyllo gan bobl eiddigeddus. Cymrwch ofal os am arwyddo dogfennau pwysig. Os am briodi, dyma'r mis i wneud hynny.

CAPRICORN: Mae ychydig o densiwn o'ch cwmplas y mis hwn. Amynedd yw'r unig ateb. Gadewch i eraill gael eu ffordd am unwaith, byddwch yn elwa yn y pendraw. Mis ffafriol i faterion ymarferol.

AQUARIUS: Pobl eraill, a'u problemau bydd yn mynd â'ch amser a'ch egni y mis hwn, cymrwch fantais o'r ffaith i drafod problemau ac ati gyda'ch teulu a'ch cyfeillion. Gochelwch rhag bod yn fyrbwyll gydag arian.

PISCES: Mis ardderchog i drefnu parti. Dylai eich sefyllfa ariannol fod ar i fyny, ond i chi fod yn sicr o'ch pethau. Cyfnod da yn y gwaith.



AR DRAWS:

1. Meddyg yn rhannu siâr o'r ystafell. (6)
4. A rydd yr elusengar. (6)
8. Rhodder stop ar weithdy arlunydd o Baris wrth newid llythyren. (7)
9. Hen frân yn gwneud tipyn o lanastr. (7)
11. Wyth dyn maes o drefn yn peri anghysur. (10)
12. Gwneuch symudiad cyflym o giwb. (4)
13. Merch sy'n disgwyl? (5)
14. Meisroli ei faes neilltuol. (8)
16. Y ddinas noddfa berta' welsoch erioed. (8)
18. "Pwy rydd _____ wŷr mawr Môn?" (G.O.) (1,4)
20. Mesur byr yw'r cwota, er colli dim ohono. (4)
21. Mynach sarrug yn arwain y bedwaredd nod i fynegi hoffter at fechgyn y teulu? (10)
23. Yn dangos brwdaniaeth penboeth. (7)
24. Aflendid cas De a Gogledd. (7)
25. Damsial arno a wnaeth Rhys, a throdd i weld yr hyn a wnaeth. (6)
26. Go brin fod hyn yn gynyrrch purfeydd olew. (6)

I LAWR:

1. Ni chredaf mai Llanandras yw cartref hwn. (5)
2. Amser digwyddiad ac achos. (7)

3. Cael pryd cynnar pe base cwart yn ddigon. (9)
5. Rhywbeth i'r fechan ei ddweud. (5)
6. Proffwydo gan daro o chwith ar y neges. (7)
7. Saif dy gêr yn dyst o'r ffordd glyfar yr wyt yn trin pethau. (9)
10. Un yn dysgu brawd Jacob fod llawer o ferched wrth yr un gwaith. (9)
13. Ai asyn y Samaritan trugarog oedd y cyntaf ohonynt? (9)
15. Llauer o helbulon yn codi o ail bren du. (9)
17. Dirweddaueth a lethu er iddo gael chwyldro. (7)
19. Cyfle i gael anadl wrth ddarlenn. (7)
21. Cael loes ar y llwybr i Fodedern. (5)
22. Y digwilydd a'r haerllug sydd â digon ohono. (5)

CYSTADLEUAETH RHIF 52:

Daeth pump datrysiad cywir i law - a hynny er waethaf cymaint â saith gambrint yn y cliwiau (cythrel y wasg eto). Yr enw a dynnwyd o'r het oedd E.Humphreys, 7 Heol Sant Brioc, Y Mynydd Bychan, Caerdydd. Fe fydd yn cael tocyn llyfrau Cymraeg am 5 mas o law.

Daeth yr atebion cywir eraill oddiwrth B.H., Cyncoed; Osian Pw, Pistyll, Pwllheli; J.Lloyd, Ger-y-llyn; a Dr.Marian Thomas, Porthaethwy, Ynys Mon.

DATRYSIAD RHIF 52:

Ar Draws: 1.Rhagbrofion; 8.Teim; 10.Dathlwn Glod; 11.Yfws;

12.Gwyn; 15.Belled; 18.Cuchia; 19.Yr India; 20.I'r wyl; 21.Maeddu; 22.Egwyddor; 23.Nodid; 24.Elltydd; 25.Adain; 28.Asio; 31.Rhaglen y dydd; 32.Dewch (neu dowch); 33.Gwiniadyddes.
I Lawr: 2.A chân; 3.Bale; 4.Oenig; 5.Islaw; 6.Nodyn; 7.Celf a Chrefft; 9.Mistar Urdd; 13.Enillwyd; 14.Ymdodda; 15.Beirniaid; 16.Llawn deilwng; 17.Dyled; 18.Camre; 25.Anrheg; 26.Ar gân; 27.Noetha; 29.Fyny; 30.Tyle.

CYSTADLEUAETH RHIF 53:

Cynigir tocyn llyfrau Cymraeg am 5 y tro hwn eto. enw neu ffugenw ar ymyl y croesair, os gwelwch yn dda, a'i ddanfôn i gyrraedd Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed, Caerdydd, erbyn Awst 22.

CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU

CARWN DYNNU SYLW darllenwyr y Dinesydd ar Gwrs Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru yng Ngregynog o nos Wener 27 i bawn Sul 29 Medi. Bydd y cwrs eleni yn gyfle i dalu teyrnged i'r diweddar Emrys Cleaver, gyfranodd mor ddiiflino at waith y Gymdeithas dros gyfnod maith. Bydd tair darlith sef "Caniadaeth wag ysmal ddigrifol" gan Rhydian Griffiths, "Canu Gwerin a'r diwydiant recordiau" gan Dafydd Iwan, a "Dilyn Trywydd" gan Dr.Meredydd Evans. Neulltuir nos Sadwrn i goffau a thalu teyrnged i Emrys Cleaver.

Yn dilyn yr arbrawf y llynedd cynigiwn ddwy ysgoloriaeth i ddau berson ifanc o dan 25oed i fynychu'r cwrs. Dylai'r ceisiadau gyrraedd yr ysgrifennydd erbyn wythnos yr Eisteddfod - Buddug Lloyd Roberts, Hafan, Cricieth, Gwynedd. Os am wledd o ddiwylliant a chwmniaeth felys, fe ddylai'r ceisiadau ddod yn llw!

YN EISIAU YN EISIAU YN EISIAU
YN EISIAU YN EISIAU YN EISIAU
YN EISIAU YN EISIAU YN EISIAU
YN EISIAU YN EISIAU YN EISIAU

Gwaith yn ardal Caerdydd
ar gyfer mis Medi
gan athrawes gyda phrofiad
helaeth o ddysgu Cymraeg
fel ail iaith.

Cysylltwch â Joan Williams:
0352 711193 (ar ôl 4.30)
neu'r Barri 736983.

ATHRAWES FEITHRIN
i Ysgol Feithrin Llandaf
i ddechrau fis Medi 1985.

Am fanylion pellach
cysyllter â:
Glenda Wyn
17 Heol Conwy
Pontcanna
Caerdydd
Ffôn: 397318

LLONGYFARCH

GENI: Llongyfarchiadau i Eluned ac Owen Rook, 20 Lansdowne Ave, Rhiwbina ar enedigaeth eu plentyn cyntaf, Alys Gwenllian, wyres i Mr. a Mrs. Lyn Evans, Cyncoed a Mr. a Mrs. Rook, y Barri.

BRYSIWCH WELLA: Dymunwn adferiad llwyr a buan i John Ewart Jones. Mae'n siwr fod dyfodiad efeilliaid i Delyth ac Eion Williams yn fodd i godi'r galon. Llongyfarchiadau i'r teulu i gyd ar enedigaeth Llinos Mai a Nia Wyn.


CYDYMDEIMLAD

MARW: Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs. Carol Cynwyl Williams a'i brawd Jeff ar eu profedigaeth yn ddiweddar o golli eu tad.

COLLI TAD: Cydymdeimlwn yn ddwys â Jean a Malcolm Thomas - yng nghanol prysurdeb yr Eisteddfod ychydig wyddom ni am y pryder a oedd ganddynt Drwg gennym ddeall i Mrs. Thomas golli ei thad.

YMDDEOL: Dymunwn yn dda i Seiriol Davies, Heol Sant Mihangel ar ei ymddeoliad. Mae'n siwr y gwelir trwyn car Vera a Seiriol yn troi am y Gogledd i weld y teulu bach ym Methel yn aml, ac hefyd i gyfeiriad Caerfyrddin i ymweld â Huw. Caiff Seiriol ddiagon o gyfle rwan i ymarfer ei ddawn fel arlunydd. Pwy ŵyr nad oes gyrfa arall ar y trothwy?

TAI BACH: Ymwelodd perthynas agos i Gadeirydd y Dinesydd a Thy'r Arglwyddi yn ddiweddar. Tra yno daeth galwad arno i ymweld a'r tŷ bach. Wedi dod gartre mynegodd ei syndod mai'r arwydd ar y drws oedd "PEERS"!



FFARWEL A CHROESO! Chwith mawr fydd gan staff S4C ffarwelio a Enys Roberts, ond llongyfarchwn hi ar ei phenodiad yn gynorthwydd cynhyrchu yn HTV.

CROESO: Estynnwn groeso twymgalon i Teleri Roberts o Dywyn sydd newydd ymuno â staff S4C fel gynorthwydd gwerthiant rhaglenni.

COFION CYNNES: Gyda gofid y clywyd fod Ruth, merch Gareth ac Ann Lloyd Jones, a'i gŵr Alan Martin Stone, wedi cael damwain car difrifol yn Ffrainc. Byddwn yn meddwl am y teulu tra bydd Ruth ac Alan yn atgyfnerthu a gwella.

DYWEDDIO: Llongyfarchiadau i Gareth Wyn Jenkins, mab ieuengaf Dr. a Mrs. Geraint Jenkins, Sain Ffagan, ar ei ddywedd iad â Suzanne Cook, merch Mr. a Mrs. C.A. Cook o'r Wenfo.

CYNYRCHIOLI: Llongyfarchiadau i Eluned Morgan, Trelai, ar gael ei dewis i gynrychioli Cymru trwy ennill cystadleuaeth a drefnwyd gan Bwyllgor Blwyddyn Ryngwladol Ieuencud. Ysgrifennodd draethawd ar ddylanwad crefydd ar hanes cymdeithasol Cymru. Fe fydd hi'n hedfan i Ganada am dair wythnos ym mis Gorffennaf. Mae Eluned yn gyn-ddisgybl yn Ysgol Glantaf ac newydd orffen cwrs dwy flynedd yng Ngholeg yr Iwerydd.

URDD GOBAITH CYMRU CANOLFAN CAERDYDD

YN EISIAU

Person i fod yn gyfrifol am weithgareddau'r Aelwyd - i weithio gyda phobl ifanc ar nosweithiau Gwener yng Nghanolfan yr Urdd

Am fanylion pellach, telerau ac ati cysylltwch ag Alan Gwynant Caerdydd: 36201

Hunangyflogedig? Heb Bensiwn?

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

LYNN JONES

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

BUDDSODDIADAU YSWIRIANT BYWYD PENSIYNAU

Eglwys Bresbyteraidd Cymru
Bwrdd y Genhadaeth
53 Richmond Road

Annwyl Dinesydd

Carwn ychydig ofod yn eich papur i dynnu sylw eich darllenwyr at sydd newydd a drefnir gan Fwrdd Cenhadol Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

Ceisiwn berson addas i Dîm Cenhadol fydd ar gael i gynorthwyo ein heglwys i ddatblygu Cenhadaeth a thystiolaeth Gristnogol o fewn eu Cymuned. Apwyntiwyd un person eisoes i'r Tim.

Edrychwn am berson o ffydd Cristnogol sicr, ac ymroddiad pendant yn gallu'n cyfathrebu'n rhwydd gyda phobl mewn Cymraeg a Saesneg. Nid yn unig bydd y person a apwyntir yn aelod o dîm teithiol, ond, bydd hefyd yn gweithio'n agos gyda'r gweithwyr eraill a gyflogir gan Fwrdd y Genhadaeth.

Ceir manylion oddi wrthyf fi yn y Swyddfa a nodir uchod.

Gyda diolch.

Yn gywir,

D. Andrew Jones

Ysgrifennydd Bwrdd y Genhadaeth

Dymuna Anne a Bob Roberts ddiolch i'w ffrindiau am y croeso 'nôl i Gaerdydd yn ystod Eisteddfod yr Urdd. 'Roedd yn wythnos fendigedig, diolch o galon i bawb am sicrhau Eisteddfod mor hapus a llwyddiannus.

GWOBRAU I FUDIADAU SY'N
DEFNYDDIO'R GYMRAEG

Cynhaliwyd gyfarfod gan Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn ystod Eisteddfod yr Urdd i gyflwyno tystysgrifau i wahanol fudiadau yn y ddinas, sydd yn gwneud y defnydd mwyaf o'r iaith Gymraeg.

Rhoddyd gwobrau i'r canlynol: ym myd masnach Banc y Midland a fu'n llwyddiannus. Braf yw gweld fod y banc hwn yn cynnig cownter Cymraeg, ond rydym yn dal i aros am ffurflenni yn y Gymraeg!

Chapter a dderbyniodd dystysgrif ym maes adloniant am eu defnydd hwy o arwyddion dwy-ieithog, ac hefyd am eu bod yn cynnal perfformiadau Cymraeg yn y theatr. Cyflwynwyd tystysgrif i Tesco yn yr adran siopau ac i British Rail ym maes sefydliadau cyhoeddus, am eu defnydd hwy o'r iaith Gymraeg.

Llongyfarchiadau i'r adrannau yma a dderbyniodd y tystysgrifau hyn, a gobeithio yn wir, y bydd hyn yn rhoi hwb i fudiadau eraill ddilyn eu hesiampl.